Teitl y Swydd: **Gyrrwr HGV C+E/Criw - SABOTAGE**

Yn adrodd wrth: **Sam Eccles, Rheolwr Technegol**

---

NoFit State yw'r mwyaf o gwmnïau syrcas gyfoes teithiol y Deyrnas Unedig. Bob blwyddyn, mae Nofit State yn mynd â un neu dau chynhyrchiad ar daith yn ei Big Top ei hunan, i theatrau, ac i safleoedd awyr-agored ledled y Deyrnas Unedig a thramor. Yng nghanolfan y cwmni yng Nghaerdydd, cynhelir rhaglen o ddosbarthiadau a phrosiectau proffesiynol a chymunedol trwy gydol y flwyddyn a darperir cyfleusterau ar gyfer nifer o artistiaid annibynnol a chwmnïau sy'n ymweld.

Mae NoFit State yn sefydliad creadigol deinamig sy'n ffynnu wrth wynebu heriau ac sydd bob amser yn ceisio dysgu a gwella ym mhopeth a wnawn. Cawn ein hysbrydoli gan y pethau y gall pobl gyffredin eu cyflawni ac rydym yn dathlu'r cryfder cymunedol a ddaw o fywyd teithiol traddodiadol y syrcas.

Ein gweledigaeth:

- Fe wnawn ni greu gwaith gwych
- Fe wnawn ni ysbrydoli teyrngarwch ac angerdd
- Fe wnawn ni newid bywydau pobl
- Fe wnawn ni droedio'n ysgafn ar y ddaear
- Fe fyddwn ni'n gwmni gwir gynaliadwy
- Fe fyddwn ni'n rhan hanfodol o sector byrlymus ac egnïol

Yng Nghymru y mae gwreiddiau NoFit State Circus ac mae'n darparu:

- Cynyrchiadau proffesiynol canolig eu maint a mawr sy'n mynd ar daith ledled y DU a thramor
- Rhaglen gymunedol a rhaglen ddysgu helaeth sy'n cynnig cyfle i bobl gymryd rhan
- Rhaglen datblygiad proffesiynol i helpu i groesi'r bont rhwng cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a hyfforddiant proffesiynol a rhwng hyfforddiant proffesiynol a swydd

## Disgrifiad o'r Swydd

Dyma swydd deithiol lawn amser sy'n golygu mynd ar daith gyda chwmni SABOTAGE mewn Big Top a charafannau. Rydyn ni'n byw ac yn teithio gyda'n gilydd, yn gweithio'n galed ac yn mwynhau bywyd. Rydyn ni'n dymuno i'r bobl sy'n ymuno â ni fod yn rhai sy'n taflu eu hunain i'n ffordd ni o fyw.

Rydyn ni'n byw gyda'n gilydd ar yr heol fel syrcas deithiol draddodiadol. Mae gennym gogydd sy'n teithio gyda ni gan ddarparu un pryd y dydd a gallwn ddarparu llety mewn ystafell â gwelyau bync os nad oes gennych eich fan wersylla/carafán eich hun. Rydym yn gweithio 6 diwrnod yr wythnos gan amlaf ac yn symud o le i le, ar gyfartaledd, bob 4-5 wythnos.

**Prif Gyfrifoldebau**

- Bod yn un o yrwyr yr HGVs a cherbydau eraill y cwmni
- Gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd, datrys problemau a gwneud gwaith atgyweirio sylfaenol ar HGVs
- Cadw cofnodion cywir o unrhyw waith a wneir ar gerbydau a gallu trafod hyn gyda mecanics/modurdai eraill yn ôl yr angen
- Paratoi y cabiau a'r trelars ar gyfer yr MOTs blynyddol
- Bod yn rhan o waith adeiladu'r babell a'r safle a'u tynnu i lawr a chlirio
- Helpu i redeg y sioe, naill ai waith blaen tŷ neu gefn tŷ
- Helpu gyda thasgau rhedeg y cynhyrchiad a bod yn aelod annatod o'r criw

## Manyleb y Person

Gall fod gennych brofiad o deithiau Big Top neu beidio, ond mae gennych awydd gwirioneddol i fanteisio ar y cyfle cyffrous hwn, ehangu'ch gorwelion a bod yn rhan o dîm anhygoel o bobl.

Byddai'r swydd yn addas i rywun sydd â meddwl mecanyddol ac sydd â diddordeb gwirioneddol mewn cynnal a chadw a gyrru HGVs. Rhaid bod dros 25 oed a bod wedi cael eu trwydded ers o leiaf ddwy flynedd er mwyn cydymffurfio â'n hyswiriant.

| Sgiliau, nodweddion a phrofiad **hanfodol** | Sgiliau, nodweddion a phrofiad **dymunol** |
|---|---|
| Gwir ddiddordeb mewn/angerdd dros syrcas deithiol a'r ffordd o fyw gysylltiedig | Profiad o weithio gyda chwmni teithiol – theatr neu syrcas gyfoes |
| Wedi bod â thrwydded yrru C+E lân ers o leiaf ddwy flynedd | Awdurdod i yrru cerbydau ychwanegol. e.e. cerbydau fforchgodi |
| Gallu defnyddio cyfrifiadur a meddalwedd sylfaenol i ddogfennu eu gwaith | |
| Gallu blaenoriaethu gwaith a rheoli eu llwyth gwaith eu hunain yn effeithlon | |
| Gallu gweithio'n ddiffwdan o dan bwysau | |



NoFit State Community Circus: Registered Charity Number 1102850 / Registered Company Number 3180348
NoFit State Circus Trading: Registered Company Number 06072806

| | |
|---|---|
| Dealltwriaeth gadarn o gynnal a chadw mecanyddol HGVs a gwaith trwsio sylfaenol, trwy gymwysterau neu brofiad perthnasol | Arbenigedd uwch mewn diagnosteg mecanyddol a gwaith trwsio |
| Gwybodaeth drwyadl am reolau'r ffordd a theori ar gyfer HGVs yn y Deyrnas Unedig | Dealltwriaeth o yrru dramor, yn enwedig ar draws yr UE |
| Cyfathrebwr cryf a chlir | Gallu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a/neu iaith/ieithoedd eraill o'r UE yn ogystal â'r Saesneg |
| Pasbort dilys | Achrediad cymorth cyntaf / Achrediad cymorth cyntaf iechyd meddwl |

## Trosolwg o'r Rôl

Mae hon yn swydd deithiol, amser llawn, llawrydd/hunan-gyflogedig, ar gontract cyfnod penodol o 5/6 mis.

Dyddiadau'r Contract: Canol Mai 2025 tan ddiwedd Hydref 2025

Cyflog: £550-£600 yr wythnos, yn dibynnu ar brofiad

## Y Broses Recriwtio

**Dyddiadau allweddol**

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 25 Ebrill 2025

Cyfweliadau: Wythnos yn dechrau 5 Mai 2025

Dyddiadau'r Contract: Canol Mai 2025 tan ddiwedd Hydref 2025

Mae Nofit State yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac mae'n croesawu ymgeiswyr o bob rhan o'r gymuned.

Ar hyn o bryd, nid oes gan bobl anabl, B/byddar a/neu niwrowahanol, pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Amrywiol gynrychiolaeth ddigonol yn ein tîm ac felly rydym yn annog pobl o'r grwpiau hyn, yn neilltuol, i ymgeisio.

Rhowch wybod i ni os bydd angen i ni wneud rhyw addasiadau yn ystod y broses ymgeisio neu recrwitio a byddwn yn hapus i'ch cefnogi.  Gallwch gysylltu â Lizzy trwy ebostio lizzy@nofitstate.org 02921 321 026.

**Sut i wneud cais**

Os hoffech ymgeisio am y swydd hon, llanwch y ffurflen fonitro cyfle cyfartal, ac anfonwch gopi o'ch CV gyda neges ebost neu lythyr byr yn amlinellu'ch diddordeb yn y rôl at:

| | | |
|---|---|---|
| rebecca@nofitstate.org | neu | Gyrrwr HGV C+E/Criw - SABOTAGE<br>NoFit State Circus<br>Four Elms Road, Caerdydd, CF24 1LE |

Rhaid i ymgeiswyr fod yn gymwys i weithio yn y Deyrnas Unedig.

Os cynigir y swydd i chi, bydd angen prawf adnabod, caiff geirdaon eu gwirio a gellir cynnal gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) lle bo'n briodol.



NoFit State Community Circus: Registered Charity Number 1102850 / Registered Company Number 3180348
NoFit State Circus Trading: Registered Company Number 06072806